**1. Pam ein bod yn profi cofebion?**

Yn 2001, cafodd ymgyrch 'Byddwch yn Barchus, Byddwch yn Ddiogel' ei lansio gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), i geisio gwella diogelwch mynwentydd. Yn fwy diweddar, gofynnir i holl awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am fynwentydd gynnal gwiriadau diogelwch ar gofebion, i sicrhau eu bod mewn cyflwr da a sefydlog a ddim yn debygol o ddisgyn. Mae'r gwiriadau diogelwch yn unol â chyngor gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) yn dilyn llythyr diweddar gan gadeirydd y HSC, Bill Callaghan. Roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod 21 damwain ddifrifol wedi digwydd ledled y wlad, gan gynnwys saith marwolaeth yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

2. **Beth y mae'r prawf yn ei olygu?**

Bydd holl archwiliadau a phrofion yn cael eu cynnal yn broffesiynol gan unigolyn cymwys yn defnyddio gweithdrefn sy'n cael ei hargymell gan ddiwydiant seiri maen cofebion a chymdeithasau proffesiynol. Mae'r archwiliad yn cynnwys dau gam:

[li] **Archwiliad gweledol**. Mae hyn yn canfod y cofebion hynny sy'n rhy beryglus i'w profi â llaw.

[li] **Profi â llaw.** Mae hyn yn brawf gwthio/tynnu â llaw i weld a oes unrhyw symudiad yn y gofeb.

**3. Beth sy'n digwydd os oes problem?**

[li] Byddwn yn hysbysu'r deiliaid gweithredoedd o unrhyw gofebion sy'n ansefydlog.

[li] Byddwn yn gosod rhybudd diogelwch ar y garreg fedd yn rhoi gwybod i bobl bod y gofeb yn ansefydlog a'r camau sydd i'w cymryd

[li] Gallwn hefyd gau'r rhan honno o'r fynwent drwy roi ffens o amgylch y gofeb neu mewn sefyllfaoedd peryglus iawn, gosod y gofeb i orwedd lawr.

[li] Er bod gan y cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y fynwent yn ddiogel, deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu sy'n gyfrifol am gofebion.

[li] Rydym yn argymell y dylech gysylltu gyda'r saer maen a ddarparodd y gofeb cyn gynted â phosib i drefnu i'w drwsio a'i wneud yn ddiogel.

Bydd saer maen yn sicrhau bod y gwaith i'r gofeb yn cael ei wneud i safonau proffesiynol priodol a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Seiri Maen Cofebion.

**Rydym yn sylweddoli y gallai hyn fod yn anodd i deuluoedd mewn profedigaeth ac rydym yn ymddiheuro am unrhyw ofid y gallai hyn ei achosi.**

Mae cofebion yn deyrnged i'n hanwyliaid a drwy brofi yn ofalus i sicrhau eu diogelwch, rydym yn dymuno gweithio gyda chi i sicrhau bod pob cofeb yn y fynwent yn parhau i fod yn deyrnged addas am flynyddoedd i ddod.

4. **A allaf drwsio cofeb fy hun?**

Gallwch. Mae gennych hawl i ymgymryd â gwaith ar y gofeb eich hun cyn belled â'ch bod yn defnyddio saer maen sydd wedi'i gymeradwyo gan y cyngor. Peidiwch ag anghofio bod rhaid i chi hefyd roi gwybod i'r Clerc eich bod yn trefnu i drwsio'r gofeb. Fodd bynnag, byddem yn eich annog yn gryf i drefnu i'r gwaith gael ei wneud gan saer maen sy'n gweithio yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Os ydych yn gwneud y gwaith eich hun ac yn ein hysbysu o hynny, byddwn yn parhau i brofi'r gofeb yn flynyddol i sicrhau bod y gofeb dal yn ddiogel.

5. **Beth na fydd y Cyngor yn ei wneud?**

Ni fydd y cyngor yn:

[li] tynnu'r gofeb o'i safle.

[li] gosod y garreg fedd i orwedd i lawr, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol os yw'r gofeb yn debygol o fod yn berygl difrifol yn fuan.

6. **Beth fydd yn digwydd os nad oes modd dod o hyd i berchnogion y gofeb?**

Os yw cofeb wedi methu'r prawf, ac nid oes modd dod o hyd i berchennog y bedd, bydd y cyngor yn gwneud y gofeb yn ddiogel drwy naill ai ei suddo'n rhannol neu drwy ei thrwsio. Bydd gofal yn cael ei gymryd, lle'n bosib, i sicrhau nad yw arysgrifiadau yn cael eu heffeithio. Bydd hyn yn golygu bod posib trwsio'r yn gyfan gwbl yn nes ymlaen os oes gofyn.

7. **Beth ydym wedi'i wneud i roi gwybod i ymwelwyr a pherchnogion cofebion?**

Cafodd hysbysiadau eu gosod ar y giatiau yn y fynedfa i'r Fynwent ac o gwmpas y safle i adael i bobl wybod ymlaen llaw bod y gwaith yma yn digwydd. Yn ychwanegol, mae hysbysiadau wedi'u postio yn y papurau lleol a hefyd ar dudalen Facebook a gwefan y Cyngor.

8. **A fydd angen i ni gynnal profion eto yn y dyfodol?**

Bydd. Bydd rhaid monitro profi cofebion yn effeithiol. Bydd angen rhaglen barhaus ar sail y rownd gyntaf o brofi. Ar ôl cyfnod o chwe mis ers i ni roi gwybod yn wreiddiol i chi bod y gofeb wedi methu'r prawf, byddwn yn cysylltu gyda chi eto i ofyn pa gamau yr ydych chi wedi'u cymryd i wneud y gofeb yn ddiogel. Os ydych yn dweud wrthym fod y gofeb wedi'i gwneud yn ddiogel, byddwn yn diweddaru ein cofnodion.